

Pwyllgor Diwylliant - CC-8-02(p.3)

Dyddiad: 25 Ebrill 2002

Amser: 2.00pm – 4.00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Twristiaeth Ddiwylliannol

Cyflwyniad

Dyma ddiffiniad Bwrdd Croeso Cymru o gyfansoddiad cynnyrch twristiaeth ddiwylliannol Cymru: *"Celfyddydau perfformio, gweledol a llenyddol, amgueddfeydd, etifeddiaeth adeiledig a chymdeithasol, tirweddau a gerddi hanesyddol, crefftau, pensaernïaeth, dylunio, ffilm, crefydd, darlledu, bwyd a chwaraeon. Yn gynwysedig yn y rhain mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg, ffurfiau o fynegiant diwylliannol sy'n draddodiadol, yn gyfoes ac yn datblygu, proffesiynol ac amatur."*

Mae'r Gymraeg a diwylliant dwyieithog Cymru yn ffactorau pwysig sy'n nodi bod Cymru yn rhan unigryw o'r Deyrnas Unedig. Yn ei dystiolaeth i'r adolygiad hwn, tanlinellodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd y ffaith fod y Gymraeg yn ffactor allweddol *"that bodies such as the Wales Tourist Board integrate into their marketing strategies in order to enhance the image they are trying to promote"*.

Mae'r papur hwn yn ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law ynghylch potensial y Gymraeg i'r diwydiant twristiaeth ac yn awgrymu rhai materion y gallai'r Pwyllgor eu hystyried. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â CC-8-02(p.2) sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r economi a chymunedau.

Yr hyn a ddywedodd yr ymgynghoriad wrthym

Nid oedd twristiaeth ddiwylliannol yn un o'r prif faterion a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr adolygiad. Er hyn, cafwyd sawl sylw ar botensial dwyieithrwydd fel ffactor sy'n hanfodol i lwyddiant twristiaeth. Cafodd hyn ei gydnabod yn nhystiolaeth y Bwrdd Croeso i'r Pwyllgor, *"time and time again the Welsh language has proven to be a unique selling-point for Wales and a wonderful lead in to other cultural and social aspects that makes our tourism offering in Wales so distinctive"*.

I raddau helaeth, cafodd rôl y Bwrdd Croeso o ran hyrwyddo Cymru fel cenedl ddwyieithog ei chanmol yn ystod yr ymgynghoriad, er nad oedd rhai o'r bobl a ymatebodd yn credu bod digon

yn cael ei wneud yn hyn o beth. Fe wnaeth un o'r rhai a ymateboedd ganmol dogfen y Bwrdd Croeso, "*Cyflawni ein Potensial*", fel dogfen "*yn frith o gyfeiriadau adeiladol am arwyddocad yr iaith, diwylliant, hunaniaeth a'r ddelwedd genedlaethol i lwyddiant twristiaeth Cymru*" a dywedodd bod y ddogfen "*yn cynnig cyfle a sylfaen i weithredu amrywiaeth o brosiectau sy'n defnyddio'r diwylliant Cymraeg mewn modd creadigol a diffuant*".

Ar ddechrau'r Adolygiad, clywodd y Pwyllgor am effeithiau negyddol posibl y diwydiant twristiaeth ar y Gymraeg. Darganfu adroddiad gan ymchwilyr yng Nghanolfan Uwchegyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Aberystwyth fod "*y diwydiant croeso a'i sgil-effeithiau wedi cyfrannu at enciliad yr iaith ac yn parhau i fygwth ei pharhad fel iaith gymunedol hyfyw ... [a bod] cryn anfodlonrwydd yn bodoli o hyd o fewn ein cymunedau derbyn fod y diwydiant croeso yng Nghymru mor Seisnig ei naws a'i iaith*". I gloi, dywedodd yr adroddiad mai'r hyn a oedd yn peri'r bygythiad mwyaf i'r Gymraeg oedd y ffordd y mae "*twristiaeth yn annog ac yn hyrwyddo mewnfudiad parhaol*".

Cafwyd tystiolaeth fod prinder siaradwyr Cymraeg yn y diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac o'r herwydd, prin yw'r busnesau sy'n defnyddio'r diwylliant brodorol yn greadigol.

Yr oedd tystiolaeth bwysig a roddwyd i'r adolygiad o'r iaith mewn cyfarfod Pwyllgor Rhanbarth yn galw am "*'newid-naid' yn ein hymdrechion i Gymreigio twristiaeth os yw hynny i gael unrhyw ganlyniadau cadarnhaol*". Ymhlith y mesurau a awgrymwyd i wella'r sefyllfa yr oedd:

- Symud portffolio twristiaeth y Cynulliad Cenedlaethol o'r portffolio Datblygu Economaidd i'r portffolio Diwylliant. Ym marn y sawl a ymatebodd, byddai hyn yn codi statws y diwydiant twristiaeth ac yn cysylltu elfennau twristiaeth a'r Gymraeg â'i gilydd.
- Rhoi lle mwy canolog a ffocws penodol i dwristiaeth ddiwylliannol yng ngweithgareddau'r Bwrdd Croeso, efallai trwy sefydlu uned benodol y tu allan i Gaerdydd mewn ardal sy'n bennaf Gymraeg ei hiaith.
- Datblygu Canolfan Ragoriaeth ym Mhrifysgol Cymru a fyddai'n arbenigo mewn twristiaeth, diwylliant a threftadaeth.

Rhai materion i'r Pwyllgor eu hystyried

Yn sgil y dystiolaeth a ddaeth i law a'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith twristiaeth ar ieithoedd brodorol, efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ystyried ffordd o feithrin cysylltiadau mwy positif rhwng y ddau a pharatoi argymhellion i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a/neu Bwrdd Croeso Cymru.

Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno rhoi datganiad yn ei adroddiad yn ategu pwysigrwydd dwyieithrwydd i'r diwydiant twristiaeth ac yn annog y Bwrdd Croeso i wneud mwy i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r diwydiant ac annog busnesau i wneud mwy o ddefnydd o'r diwylliant brodorol.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Ebrill 2002